



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cyfradd Comisiwn Cartrefi Mewn Parciau

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Awst 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio sefydlu a ddylai'r gyfradd comisiwn sy'n daladwy i berchnogion parciau wrth werthu cartref mewn parc barhau ar ei lefel bresennol o 10% neu ei gostwng neu ei diddymu.

Sut i ymateb Atebwch y cwestiynau yn yr holiadur ar ddiwedd y papur hwn.

Manylion cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Tai'r Sector Preifat
Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

e-bost:

PrivateSectorHousingMailbox@wales.gsi.gov.uk

rhif ffôn: 0300 062 8189

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni?

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Gallai hefyd gael ei weld gan aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn ni'n cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb, a gwybodaeth arall, yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad a gwybodaeth arall gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Gallai enwau neu gyfeiriadau a gaiff eu cuddio

gennym gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach o hyd, ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau hefyd. Pe bai rhywun yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i chadw yn ôl, bydd rhaid i ni benderfynu a ddylem ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n fater pwysig inni ei ystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Y sector cartrefi preswyl mewn parciau yng Nghymru

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal sector cartrefi mewn parciau preswyl sy'n gynaliadwy a deniadol yng Nghymru gyda pharciau a reolir yn dda a chartrefi sydd mewn cyflwr da. Mae cartrefi mewn parciau (neu gartrefi symudol fel y'u gelwir hefyd) yn darparu deiliadaeth bwysig o ddewis i lawer o unigolion. Amcangyfrifir bod tua 100 o safleoedd cartrefi preswyl mewn parciau yng Nghymru sy'n cynnwys rhyw 3,400 o gartrefi ar hyn o bryd. Mae tua 10,000 o bobl yng Nghymru yn byw mewn cartrefi mewn parciau fel eu prif fan preswylio parhaol. Felly mae cartrefi mewn parciau yn adnodd tai pwysig yng Nghymru.
- Gall cartrefi mewn parciau fod yn opsiwn tai economaidd ymarferol a deniadol sy'n addas ar gyfer rhai pobl oherwydd gallant gynnig deiliadaeth amgen i dai "bricks a mortar". I rai, gall fod yn ddewis yn ymwneud â "ffordd o fyw" – mae parciau mewn lleoliadau hardd yn aml, a gall fod cyfyngiadau ar bwy all fyw yno; er enghraifft mae nifer yn gweithredu rheol "dros-50" ac yn denu pobl sy'n dymuno symud i gartref llai o faint ar ôl ymddeol. Mae nifer o barciau'n cynnig ymdeimlad cryf o gymuned ac yn darparu gwasanaethau ychwanegol i breswylwyr.
- Mae'n hanfodol bod pobl sy'n dewis yr opsiwn tai hwn yn elwa ar fanteision diogelwch digonol a rheolaeth dda ar y safleoedd lle maent yn byw. Yn yr un modd, mae angen i berchnogion parciau gael yr anogaeth a'r cymhellion cywir i sicrhau bod eu safleoedd yn cael eu rheoli'n dda ac o safon dda. Mae arferion rheoli da'r un mor fuddiol i drigolion sy'n byw ar y safleoedd â pherchnogion y parciau eu hunain. Mae'n amlwg bod llawer o berchnogion yn awyddus i gynnal safonau uchel, sy'n gwella eu henw da fel perchnogion parciau da heb os. Mae gan berchnogion cartrefi unigol mewn parciau gyfrifoldeb i gynnal a chadw eu cartrefi mewn cyflwr da ac i ymddwyn yn gyfrifol a dangos parch dyledus at drigolion eraill.
- Defnyddir y termau cartref mewn parc a chartref symudol i gyfeirio at yr un peth yn aml. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, defnyddir y term "cartref mewn parc". Mae unrhyw gyfeiriad at "gartref mewn parc" yn golygu cartref symudol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae "preswlydd" neu "breswlydd cartref mewn parc" yn golygu "meddiannydd cartref symudol" o dan y Ddeddf. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â phreswylwyr sy'n berchen ar eu cartrefi ac nid y rheini sy'n denantiaid. "Perchennog parc" yw "perchennog safle" o dan y Ddeddf.

Y trefniadau deddfwriaethol ac ariannol presennol

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o fesurau eisoes i wella dulliau rheoli yn y sector ac i gefnogi ei nod hirdymor o sicrhau bod y sector cartrefi mewn parciau yng Nghymru yn llewyrchus a chynaliadwy.
- Diwygiodd ac ailddatganodd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 y gyfraith mewn perthynas â safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru ac roedd yn cynnwys cyflwyno prawf unigolyn addas a phriodol ar gyfer rheolwyr safleoedd, pwerau gorfodi gwell ar gyfer awdurdodau lleol wrth arolygu safleoedd a dirwyo rheolwyr safleoedd lle mae arferion rheoli gwael wedi digwydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi newid y gyfradd chwyddiant y gall cynnydd mewn ffioedd llain fod yn gysylltiedig â hi, o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.
- Mae astudiaethau blaenorol i economeg y diwydiant wedi nodi bod yna dair prif ffynhonnell sefydledig o incwm i berchnogion parciau:

- Gwerthu cartrefi newydd mewn parciau
- Ffioedd lleiniau
- Tâl comisiwn ail-werthu ar gartrefi mewn parciau a werthir yn breifat

Gwerthu cartrefi newydd mewn parciau

- Gall gwerthu cartrefi newydd mewn parciau gynhyrchu ffynhonnell o incwm i berchennog parc. Gall hyn ddigwydd pan fydd llain yn wag neu pan fydd lleiniau newydd wedi'u datblygu ar safle, a gall cartref parc newydd gael ei brynu a'i osod ar y llain i'w roi ar y farchnad i'w werthu. Mae gwerthu cartrefi newydd yn dibynnu ar leiniau'n dod yn wag neu safle sydd â'r gallu i gynyddu nifer y lleiniau o dan ei drwydded safle ac unrhyw ganiatâd cynllunio.

Ffioedd lleiniau

- Y ffi llain yw'r swm y mae'n rhaid i'r preswlydd ei dalu yn gyfnewid am gael cadw ei gartref parc ar y llain a chaiff ei nodi yn y cytundeb rhwng perchennog y parc a'r preswlydd. Gelwir y broses o newid y ffi llain yn 'adolygiad ffi llain' a dim ond unwaith y flwyddyn y gellir gwneud hynny. Dywed Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 mai dim ond ar sail canran benodol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) y dylai'r ffi llain gynyddu neu ostwng.
- Fodd bynnag, wrth adolygu'r ffi llain, gellir rhoi sylw dyledus i:
 - Unrhyw arian a wariwyd ar welliannau i'r safle gan berchennog y parc ers dyddiad yr adolygiad diwethaf sydd o fudd i'r preswylwyr. Rhaid bod perchennog y parc wedi ymgynghori ar y gwelliannau o flaen llaw.
 - Unrhyw ostyngiad yn amwynderau'r safle ers dyddiad yr adolygiad diwethaf. Unrhyw ostyngiad yn y gwasanaethau y mae'r perchennog yn eu cyflenwi ar y safle a dirywiad yn ansawdd y gwasanaethau hynny.
 - Unrhyw effaith yn deillio o unrhyw ddeddf sydd wedi dod i rym ers dyddiad yr adolygiad diwethaf.
- Os nad yw perchennog cartref mewn parc yn cytuno â swm newydd y ffi llain gallant wrthod ei dalu, er bod yn rhaid iddynt barhau i dalu'r ffi llain presennol hyd nes y gellir dod i gytundeb. Os na ellir dod i gytundeb, gall y perchennog parc neu berchennog y cartref yn y parc wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl am benderfyniad ar swm y ffi newydd. Pan fydd y tribiwnlys yn penderfynu ar y ffi llain, mae'n dod i rym o'r dyddiad a bennir gan y tribiwnlys.

Tâl comisiwn ail-werthu ar gartrefi mewn parciau a werthir yn breifat

- Wrth werthu cartref mewn parc, mae'n ofynnol i'r deiliad newydd dalu comisiwn i'r perchennog ar werthiant cartref symudol ar raddfa nad yw'n fwy na'r gyfradd a bennir gan Weinidogion Cymru, sef 10% o bris prynu'r cartref symudol ar hyn o bryd. Yn ymarferol mae hyn yn golygu bod y swm y mae'r gwerthwr yn ei dderbyn o'r pris prynu ar gyfer ei gartref yn cael ei ostwng yn unol â hynny er mwyn ystyried y 10% y bydd yn rhaid i'r prynwr ei dalu i berchennog y parc.
- Mae comisiwn ar ailwerthu cartref mewn parc preswyl wedi bod mewn bodolaeth ers i bobl ddefnyddio cartrefi mewn parciau fel preswylfa barhaol. Yn y 1960au nid oedd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar barciau i ganiatáu i gartref gael ei werthu ar y llain, ond roedd rhai'n cytuno i wneud hynny am gomisiwn. Roedd y gyfradd

nodweddiadol oddeutu 20%. Rhoddodd Deddf Cartrefi Symudol 1975 hawl statudol i bob preswlydd werthu eu cartref mewn parc, gan ddigolledu perchnogion am orfod sicrhau diogelwch deiliadaeth drwy gyflwyno hawl statudol i gomisiwn, a gafodd ei gapio ar 15% i ddechrau. Yna cafodd hyn ei ostwng i 10% gan Ddeddf Cartrefi Symudol 1983; mae wedi aros ar y lefel hon byth ers hynny. Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu lefel y comisiwn drwy reoliadau, a gwnaed hynny yn 2014, gan osod y gyfradd ar 10%.

- Y cyfiawnhad cyffredinol ar gyfer y tâl comisiwn yw bod yr hyn sy'n cael ei werthu yn gyfuniad o werth y cartref mewn parc a gwerth y safle lle mae'n cael ei roi. Heb y llain/lleoliad y safle, gallai'r cartref gael ei brisio'n is ar gyfer ail-werthu. Gellir dadlau ei fod hefyd yn cael ei ystyried gan rai fel taliad iawndal i berchennog y parc am golli defnydd o'r tir lle mae'r cartrefi yn barhaus, ac felly mae'n rhan o'r gost ar gyfer sicrhau diogelwch deiliadaeth i breswylwyr.
- Mae preswylwyr cartrefi mewn parciau'n ystyried y gofyniad i dalu'r comisiwn yn annheg a hen ffasiwn. I bob pwrpas maent yn credu bod eu ffioedd llain yn cynnwys rhentu'r tir ac yn darparu iawndal digonol i berchnogion parciau am ddefnyddio'u tir. Mae nifer o adolygiadau wedi eu cynnal i benderfynu a yw'r gyfradd yn briodol neu a ddylid ei newid.
- Ffocws yr ymgynghoriad hwn yn benodol yw'r gyfradd comisiwn bresennol o 10% ac a yw'n parhau i fod yn deg, yn rhesymol ac a oes modd ei chyfiawnhau.

Ymchwil ac Ymgynghori Blaenorol

- Mae rhai trigolion cartrefi mewn parciau yn credu bod y gyfradd comisiwn yn annheg ac wedi bod yn galw am ei diddymu. Mae ymdrechion i sefydlu safbwynt ffeithiol ynghylch cyfraddau comisiwn ac a ydynt yn annheg ac a ddylid eu newid neu eu dileu wedi cymell Llywodraethau olynol i gynnal cyfres o adolygiadau;

2002 – Astudiaeth o Economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau yn y DU - Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

- Cynhaliwyd astudiaeth gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) ar y pryd i Economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau yn y DU yn 2002. Ni wnaeth y canfyddiadau gyflwyno achos dros newid neu gael gwared ar y gyfradd comisiwn.

2006 - Ymgynghoriad ar Gyfradd Comisiwn Cartrefi mewn Parciau - Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar dri opsiwn posibl (1) cadw (2) lleihau neu (3) diddymu'r gyfradd comisiwn o 10%. Sefydlodd y canfyddiadau nad oedd yna gonsensws cyffredinol ynghylch pa ddewis ddylid ei ddatblygu, ac roedd gwahaniaeth barn bendant rhwng perchnogion a phreswylwyr parciau. Ystyriwyd o ganlyniad na ellid cyfiawnhau unrhyw newid i'r gyfradd ar y pryd.

2014 – Adolygiad o Ddata – Llywodraeth Cymru

- Adolygwyd y data a phenderfyniad adroddiad 2002 i beidio â newid y gyfradd comisiwn gan swyddogion yn 2014. Roedd hyn yn dilyn awgrymiadau bod dylanwad gormodol gan gynrychiolwyr y diwydiant a thuedd i roi gormod o ystyriaeth i'w barn. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw duedd neu ddylanwad o'r fath.

Adolygiad o Economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau yng Nghymru 2015/2016

(<http://llyw.cymru/statistics-and-research/economics-park-home-industry/?lang=cy>)

- Comisiynwyd yr astudiaeth i gynnal asesiad cynhwysfawr o economeg y diwydiant cartrefi mewn parciau yng Nghymru, gan gynnwys ystyried a yw'r gyfradd comisiwn yn parhau i fod yn briodol ac, os felly, ar ba lefel y dylai'r gyfradd gael ei gosod. Nid oedd y canfyddiadau'n cefnogi unrhyw newid i'r gyfradd comisiwn ar gyfer preswylwyr presennol, gan ei bod yn teimlo y gallai fod gormod o risg i hyfywedd a chynaliadwyedd rhai safleoedd. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth ariannol gyfyngedig nad oedd wedi'i wirio yn golygu ei bod yn anodd i'r ymchwil ddatgan yn hyderus bod y canfyddiadau yn gwbl gynrychioliadol o'r diwydiant yn ei gyfanrwydd. Felly dim ond rhoi amcan o rôl y gyfradd comisiwn yn y diwydiant y gallai ei wneud.

Ble ydym ni nawr?

- Mae preswylwyr cartrefi mewn parciau yn dal i wrthwynebu'n gryf yr angen parhaus am y gyfradd comisiwn. Maent yn teimlo nad oes modd ei chyfiawnhau, ac yn absenoldeb y dystiolaeth sy'n cyfiawnhau ei phwysigrwydd i hyfywedd y safleoedd a'r sector yn ehangach, mae'r amser wedi dod i gael gwared arni.
- Mae'r diffyg data cynhwysfawr wedi'i wirio yn yr adolygiad diweddaraf wedi'i gwneud yn anodd pennu pa mor bwysig yn union yw'r comisiwn a gaiff perchennog parc pan werthir cartref i fusnesau safleoedd na sut y defnyddir y llif referniw y mae'n ei ddarparu gan y busnesau hynny. Heb y wybodaeth hon, bydd rhai trigolion yn amau o hyd na ellir cyfiawnhau'r tâl.
- Fodd bynnag, mae yna bryderon hefyd y gallai'r preswylwyr eu hunain gael eu heffeithio er gwaeth pe bai'r gyfradd comisiwn yn cael ei newid. Roedd astudiaethau Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog a Llywodraeth Cymru'n dangos y gallai perchnogion geisio gwneud iawn am yr incwm a gollir o'r gyfradd comisiwn drwy ddulliau eraill, yn enwedig drwy gynyddu ffioedd lleiniau o bosibl, er mwyn i'w busnes aros yn hyfyw yn ariannol. Gallai hyn fod yn anodd i lawer o breswylwyr cartrefi mewn parciau sy'n bensynwyr, neu ar fath arall o incwm sefydlog. Yn ogystal, pe bai'r golled o incwm comisiwn yn tanseilio hyfywedd parhaus parc, neu'n amharu ar unrhyw fuddsoddiad yn y parc a'i seilwaith, gallai hyn effeithio ar ansawdd bywyd y preswylwyr a gwerth eu cartrefi. Mae perygl hefyd y gall perchennog y parc benderfynu cau'r parc yn llwyr. Byddai hyn yn golygu y byddai preswylwyr yn gorfod dod o hyd i barciau eraill i symud eu cartrefi iddynt, neu, o bosibl yn eu rhoi mewn perygl o fod yn ddigartref. Felly mae'n bwysig deall goblygiadau unrhyw newid i'r gyfradd comisiwn ar bob parti cyn cymryd unrhyw gamau.

Ble nesaf?

- Yr hyn sy'n amlwg o'r adroddiadau a'r adolygiadau olynol yw bod y gyfradd comisiwn yn parhau i fod yn bwnc anodd a bod yna ddwy farn wahanol iawn o hyd. Mae ansicrwydd parhaus, diffyg eglurder a thrafodaeth ar y pwnc hwn yn tanseilio perthynas dda rhwng perchnogion cartrefi mewn parciau a rheolwyr y safleoedd. Gall ansicrwydd wneud cynllunio busnes tymor hir yn fwy anodd i berchnogion parciau hefyd. O'r herwydd mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn awyddus i sicrhau bod penderfyniad teg a chytbwys yn cael ei wneud ar y mater.

- Er bod y comisiwn yn cael ei dalu gan y meddiannydd newydd, mae yna effaith ariannol uniongyrchol ar y gwerthwr sy'n derbyn yr hyn sy'n weddill o'r pris gwerthu pan fydd y gyfradd comisiwn wedi ei didynnu yn y bôn. I bob pwrpas, maent yn derbyn hyd at 10% yn llai na'r pris gwerthu a gytunwyd. Mae yna bryder y gall hyn olygu bod rhai trigolion cartrefi mewn parciau yn teimlo'n gaeth ac nad ydynt yn gallu symud ymlaen. Mae llawer o breswylwyr cartrefi mewn parciau'n hŷn, ac os oes ansicrwydd yn codi am eu gallu i barhau i fyw'n annibynnol a diogel yn eu cartrefi, efallai mai gwerthu eu cartref mewn parc fydd y peth cyntaf y bydd angen iddynt ei ystyried. Er enghraifft, i rai sy'n meddwl y gallai fod angen iddynt fynd i lety gwarchod neu ofal preswyl/nyrsio, gall colli 10% o bris gwerthu eu cartref mewn parc gael effaith ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt a pha lety y gallant symud iddo os ydynt yn gwerthu eu cartref. Gall hyn achosi pryder ac ansicrwydd.
- Felly ar 21 Mawrth 2017 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant ei benderfyniad i gynnal ymgynghoriad ar gynigion i gadw, lleihau neu ddiddymu'r gyfradd comisiwn o 10% sy'n daladwy i berchnogion parciau. Yn ei gyhoeddiad mynegodd ei siom yn glir nad oedd mwy o wybodaeth wedi cael ei datgelu gan y diwydiant er mwyn galluogi i ddadansoddiad ac asesiad gael ei wneud.
- Wynebodd y rhai a gynhaliodd Adolygiad Llywodraeth Cymru yn 2015/16 sawl her wrth lunio eu hadroddiad. Er gwaethaf y ffaith bod dros hanner yr holl berchnogion parciau wedi cymryd rhan yn yr ymchwil, dim ond chwarter y perchnogion parciau ddarparodd wybodaeth ariannol fanwl. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd deall economeg y diwydiant yn llawn ar hyn o bryd ac union oblygiadau gwneud unrhyw newid i'r gyfradd comisiwn.
- Yn dilyn ystyriaeth ofalus o ganfyddiadau'r adroddiad, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn teimlo erbyn hyn ei bod yn bryd newid y ffordd rydym yn deall arwyddocâd y gyfradd comisiwn. Mae bellach yn galw ar bawb sydd â buddiant yn y sector i ymateb i'r ymgynghoriad hwn a darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i lywio ei benderfyniad ar yr hyn a ddylai ddigwydd mewn perthynas â thalu comisiwn.
- Mae'n bwysig bod pawb sydd â buddiant yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn defnyddio'r cyfle hwn i roi tystiolaeth i gefnogi'r hyn y maent yn ystyried a ddylai ddigwydd, boed hynny i gadw pethau fel y maent, neu weithredu newidiadau.

Cwestiynau'r ymgynghoriad:

Os oes angen lle ychwanegol arnoch ar gyfer unrhyw un o'ch atebion, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân, gan nodi pa gwestiwn mae eich ateb yn berthnasol iddo.

1. Pa un o'r canlynol ydych chi:

- a. Perchennog parc
- b. Corff sy'n cynrychioli perchnogion parciau
- c. Preswilydd mewn cartref mewn parc (perchennog)
- d. Preswilydd mewn cartref mewn parc (tenant)
- e. Corff sy'n cynrychioli preswylwyr cartrefi mewn parciau
- f. Arall, nodwch

Ateb:

2. A ddylai comisiwn ar ail-werthu cartrefi mewn parciau yng Nghymru:

- a. Gwel ei gadw ar y lefel bresennol o 10%
- b. Cael ei leihau
- c. Cael ei diddymu
- d. Arall, (nodwch yn y bocs isod)

Rhowch eich dewis o ateb ac esbonio'r rheswm dros eich ateb

3. Faint mae'r incwm a geir o'r comisiwn yn cyfrannu at incwm cyffredinol busnes safle? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'ch ateb.


4. Ar gyfartaledd, pa mor aml mae perchennog parc yn derbyn incwm comisiwn? H.y. pa mor aml mae cartrefi mewn parciau sydd dan berchnogaeth yn barod yn cael eu gwerthu? Sut mae'r incwm hwn yn cael ei ymgorffori i'r cynllun busnes? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn.

5. Sut mae'r incwm comisiwn a gaiff perchennog parc yn cael ei ddefnyddio? Rhowch enghreifftiau a darparwch dystiolaeth ategol lle bo ar gael.

6. Sut allai unrhyw newid i dalu comisiwn effeithio ar hyfywedd safleoedd cartrefi mewn parciau yn y tymor byr a/neu yn y tymor hir? Rhowch unrhyw dystiolaeth a dogfennau ategol sydd gennych i gefnogi'ch sylwadau.



7. Sut allai perchennog parc geisio lliniaru effaith y risgiau hynny i hyfywedd tymor byr neu dymor hir eu safle? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'ch safbwynt.



8. Sut mae comisiwn a delir gan feddiannydd newydd yn effeithio ar allu preswlydd i werthu'r cartref symudol/cartref mewn parc? Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich barn.

**9. Faint o werth mae cael ei leoli ar lain yn ei ychwanegu at gartref mewn parc?
Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'ch safbwynt.**

10. Mae Llywodraeth Cymru eisiau deall yr holl ganlyniadau pe bai'r comisiwn yn cael ei leihau neu ei ddileu. Eglurwch pob canlyniad yn eich barn chi a rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn.

11. Os ydych chi'n berchennog parc, a fydddech yn barod i rannu gwybodaeth fanwl am gyfrifon eich parc gyda Llywodraeth Cymru?

Os felly, nodwch y ffordd orau o gysylltu â chi i drafod unrhyw drefniadau o'r fath.

12. Pa effaith y mae cyflwyno'r Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi'i gael ar y sector hyd yn hyn? Rhowch unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

13. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r gyfradd comisiwn ar gartrefi mewn parciau yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau fyddai yna yn eich barn chi? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

14. Tybed a allwch esbonio hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn

cael ei thrin llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

15. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, nodwch nhw fan hyn:

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma:

Rhestr o'r Ymgyngoreion

- Comisiwn Pobl Hŷn Cymru
- Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain
- Cymdeithas Genedlaethol Preswylwyr Cartrefi mewn Parciau
- Cymdeithasau preswylwyr cymwys
- Cyngor Age Cymru
- Cyngor Carafanau Cenedlaethol
- Cyngor ar Bopeth
- Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Cyswllt Sipsiwn
- Gwasanaeth Ymgynghori Annibynnol ar Gartrefi mewn Parciau
- Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
- Gwasanaethau Tân
- LEASE / Park Home Living
- Partneriaeth Cyfraith y Gymuned
- Perchnogion parciau
- Pob AC
- Pob Adran Iechyd yr Amgylchedd mewn Awdurdod Lleol
- Pob Cyfarwyddwr Tai ALI
- Preswylwyr cartrefi mewn parciau?
- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Shelter Cymru
- Tai Pawb
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl